Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape



# Canllaw i Wirfoddoli

## yn Nhirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

# Manylion Cyswllt

**Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
Parc Gwledig Loggerheads
Loggerheads
Ffordd Rhuthun
ger Yr Wyddgrug
Sir Ddinbych
CH7 5LH

loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

01824 712 757





# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 4

Pwy sy'n gofalu am y Dirwedd Genedlaethol? ........ 5

Gofalu am y Dirwedd Genedlaethol ........ 6

Ein hymrwymiad i'n gwirfoddolwyr ........ 7

Cyfleoedd i wirfoddoli ........ 8

Sefydliadau Partner ........ 10

Sut mae dod yn wirfoddolwr? ........ 11



**Cydnabyddiaeth**
Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n berchen ar y ffotograffau








# Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy



# Map Tirwedd Genedlaethol



# Cyflwyniad



Mae'n bleser gennyf eich croesawu i Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a hoffwn ddiolch i chi am wirfoddoli gyda ni neu feddwl amdano. Rwyf wedi cael y pleser o arwain y Dirwedd Genedlaethol ers 1994 ac yn y cyfnod hwnnw, rwyf wedi darganfod bod lefelau angerdd ac ymroddiad pob gwirfoddolwr yn anhygoel. Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i'n gweithrediad, ac ni allem weithredu heboch chi. Mae'r tîm yr ydych wedi ymuno ag o yn cynnwys pobl o ystod amrywiol o gefndiroedd, ond maent yn unedig yn eu hempathi a'u hymrwymiad i warchod a gwella'r ardal wych hon.

Rydych chi'n ymuno â chymuned o bobl anhygoel sydd â llawer o brofiad i'w rannu gyda chi. Maen nhw'n griw cyfeillgar hefyd, felly rwy'n siŵr y byddan nhw'n rhoi croeso gwych i chi! Bydd y llawlyfr hwn yn eich rhoi ar ben ffordd ar eich siwrnai wirfoddoli a bydd yn ganllaw defnyddiol yn ystod eich amser gyda ni.

Dylech ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn y daflen hon, ond ffoniwch Ganolfan Ymwelwyr Loggerheads os oes gennych unrhyw gwestiynau nawr neu yn y dyfodol.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau eich amser gyda ni, ac edrychaf ymlaen at gael cwrdd â chi yn fuan.

**Howard Sutcliffe**
Swyddog Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

# Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Tirwedd Genedlaethol yw ardal sydd mor werthfawr nes ei bod yn cael ei diogelu ar gyfer y genedl. Mae ardaloedd fel hyn yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith. Pwrpas y dynodiad yw gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal. Mae 46 o Dirweddau Cenedlaethol ffurfiol yn y DU; ac mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn un o bump yng Nghymru.

Dynodwyd Bryniau Clwyd ym 1985. Yna, yn 2011, cafodd ei ymestyn i gynnwys llawer o Ddyffryn Dyfrdwy o Gorwen i Chirk. Mae Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cwmpasu 390 cilomedr sgwâr o rai o dirluniau mwyaf bendigedig y DU. O lethrau arfordirol Llechweddau Prestatyn yn y gogledd i Fryniau anghysbell y Berwyn a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn y de, mae Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dirlun gwrthgyferbyniol. I'r gogledd, mae Bryniau Clwyd yn gadwyn nodedig o gopaon grug gyda bryngaerau o'r Oes Haearn. I'r de, mae Rhosydd Llandegla yn cynnwys Mynydd eang Rhiwabon a chlogwyni carreg galch anhygoel sgarp Eglwyseg.



## Pwrpas y llyfryn hwn

Nod y llyfryn hwn yw rhoi rhywfaint o wybodaeth gyffredinol i chi am Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, y broses o ddod yn wirfoddolwr a'r cyfleoedd gwirfoddoli yr ydym yn eu cynnig. Rydym hefyd yn awgrymu sefydliadau eraill y gallwch weithio â nhw sydd hefyd yn cefnogi'r ardal.

# Gofalu am y Dirwedd Genedlaethol

## Mae arnom angen eich help!

Yn syml iawn, ni fyddem byth yn gallu gwneud yr holl waith sydd ei angen yn gyson i gynnal Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy heb gymorth ein gwirfoddolwyr ymroddedig a brwdfrydig.

Bob blwyddyn, mae ein gwirfoddolwyr yn rhoi miloedd o oriau o'u hamser i wella a chynnal y Dirwedd Genedlaethol. Maent yn ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau gan gynnwys codi waliau cerrig sych, plygu gwrychoedd, llosgi grug, cyfri llyffantod cefnfelyn a gwrando allan am y rugiar ddu.

Nid yn unig y mae gwirfoddoli yn hwyl, mae'n mynd â chi allan i'r awyr iach, yn dysgu sgiliau newydd i chi, ac yn rhoi cyfle i chi gwrdd â phobl newydd a rhoi rhywbeth yn ôl i'r amgylchedd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i fwy o bobl werthfawrogi harddwch yr ardal ac wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu, mae'r strategaeth reoli wedi cynnwys rhaglen o alluogi twristiaeth gan greu cydbwysedd rhwng nifer gynyddol yr ymwelwyr â gwarchod y dirwedd y maent wedi dod i'w mwynhau. Rydym eisiau i bobl i fwynhau'r Dirwedd Genedlaethol, ond hefyd hoffem sicrhau fod pawb yn elwa, o'n cymunedau a'n busnesau lleol i brosiectau cadwraeth a mentrau amgylcheddol, ac wrth gwrs yr ymwelwyr eu hunain.

Gallwn gynnig cymorth a chyngor i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn y Dirwedd Genedlaethol a'r ardaloedd gwarchodedig o'i hamgylch, o ran cynllunio, rheoli a chyfleoedd cyllid ar gyfer unrhyw brosiect sy'n gwarchod neu'n gwella'r ardal.



# Gwirfoddoli yn y Dirwedd Genedlaethol

Mae'r Dirwedd Genedlaethol wedi bod yn cynnal rhaglen wirfoddoli lwyddiannus ers nifer o flynyddoedd. Mae oedran ein gwirfoddolwyr yn amrywio o 16, ac mae ein gwirfoddolwr hynaf yn 94!

Mae ein gwirfoddolwyr yn dod o bob math o gefndiroedd: myfyrwyr sydd eisiau datblygu gyrfa yn y sector cefn gwlad; pobl ddi-waith sydd am feithrin sgiliau; a llawer o bobl wedi ymddeol sydd eisiau cadw'n heini, 'rhoi rhywbeth yn ôl' a mwynhau'r cyfeillgarwch a'r agweddau cymdeithasol ar wirfoddoli. Yn syml iawn, ni fyddem byth yn gallu gwneud yr holl waith sydd ei angen i gynnal y Dirwedd Genedlaethol heb gymorth ein gwirfoddolwyr ymroddedig a brwdfrydig.

Nid yn unig y mae gwirfoddoli yn hwyl, mae'n mynd â chi allan i'r awyr iach, yn dysgu sgiliau newydd i chi, yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r amgylchedd ac yn rhoi cyfle i chi gwrdd â phobl newydd.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael i chi gyda Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Bydd y wybodaeth isod yn rhoi syniad i chi o'r rolau sydd ar gael, a'r hyn y mae'n ei olygu. Fodd bynnag, rydym bob amser yn falch o glywed am ffyrdd eraill y teimlwch y gallwn ni eich cefnogi chi.

Os yw hyn yn rhywbeth sydd o ddiddordeb i chi, yna edrychwch ar ein rhaglen wirfoddoli i weld a oes unrhyw beth sy'n mynd â'ch bryd.



*"Ar yr achlysuron yr wyf wedi gwirfoddoli, mae wedi rhoi tawelwch meddwl i mi a gwir ymdeimlad o les"*

# Ein hymrwymiad i'n Gwirfoddolwyr

Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda gwirfoddolwyr. Mae Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn sefydliad cyfle cyfartal, ac rydym am i'n Tirwedd gynrychioli'r amrywiaeth yn ein cymunedau lleol. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob oed a chefndir.

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eich bod yn derbyn y gefnogaeth briodol ac yn teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi, fel y gallwch wireddu eich llawn botensial fel gwirfoddolwr.

## Gallwch ddisgwyl:

- Cael eich gwerthfawrogi a'ch parchu fel gwirfoddolwr
- Cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'ch rôl
- Parch gan y tîm Tirwedd Genedlaethol a chyd-wirfoddolwyr
- Camau priodol i sicrhau eich iechyd a diogelwch a byddwch wedi'ch diogelu gan ein hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymeradwy
- Cyngor a chymorth parhaus
- Sicrhau eich bod yn cael profiad mor bleserus ag sy'n bosibl o wirfoddoli gyda ni.
- Rhoi budd i'r gymuned leol
- Hyrwyddo diwylliant ac economi Cymru
- Creu cysylltiadau newydd a gwneud ffrindiau newydd
- Cael profiad o fywyd gwyllt a thirwedd anhygoel
- Meithrin eich sgiliau a dysgu rhai newydd
- Rhoi hwb i'ch iechyd a'ch lles
- Chwarae eich rhan

# Beth yr ydym yn ei ddisgwyl gan ein Gwirfoddolwyr

## Rydym yn disgwyl:

- Eich bod yn gwrtais, yn broffesiynol, yn ddibynadwy, yn gyfrinachol ac yn barchus tuag at aelodau, staff, cyd-wirfoddolwyr ac unrhyw aelodau o'r cyhoedd y gallwch ryngweithio â nhw fel gwirfoddolwr ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Darllen a chydymffurfio â'n polisïau, arferion, gweithdrefnau a phenderfyniadau rheoli
- Bod yn ddibynadwy ac yn onest yn eich holl waith gwirfoddol
- Bod yn gyfrifol am eich holl weithredoedd eich hun ac adlewyrchu nodau a gwerthoedd Partneriaeth Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Cyflawni eich rôl wirfoddol o fewn y ffiniau proffesiynol a nodir ar eich cyfer yn eich hyfforddiant
- Mynychu hyfforddiant gwirfoddolwyr sydd ei angen fel rhan o'ch cyfnod sefydlu, ac unrhyw hyfforddiant pellach ar gyfer eich rôl



# Cyfleoedd i  Wirfoddoli

## Aelod Partneriaeth Tirwedd Genedlaethol

Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig a gwybodus sy'n barod i gymryd rhan lawn i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol.  Byddem yn croesawu'n arbennig aelodau sydd â gwybodaeth a phrofiad o dwristiaeth, amaethyddiaeth, mynediad a hamdden, treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg. Cynhelir tri chyfarfod Aelodau Partner bob blwyddyn.

## Pencampwyr Cymunedol

Mae Pencampwyr Cymunedol yn aelodau o gyngor cymuned neu dref sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r tîm Tirwedd Genedlaethol. Maent yn ddolen gyswllt rhwng y swyddogion Tirwedd Genedlaethol a'u cymuned. Mae'r Pencampwyr yn angerddol dros warchod tirwedd yr ardal ac yn cefnogi ein gwaith drwy helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Dirwedd Genedlaethol ac ymgysylltu â'n prosiectau a'n digwyddiadau.

## Gwirfoddolwyr Ymarferol

Rydym yn cynnig ystod o weithgareddau lle gall gwirfoddolwyr ymgymryd â gwaith cadwraeth ymarferol, gwaith cynnal a chadw pwysig a sgiliau cefn gwlad, megis codi waliau cerrig, bôn-docio a phlygu gwrychoedd

*"Mae'r profiadau ymarferol o fod yn Geidwad Ifanc yn gymdeithasol iawn, mae'n gyfle i gael hwyl ac i helpu"*

*"Rydw i'n teimlo'n dda am gyfrannu at ofod cymunedol mor wych, a chael fy nghroesawu gan y Tîm"*

## Ceidwaid Ifanc / Ieuenctid +

Mae Ceidwaid Ifanc ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a grŵp Ieuenctid + ar gyfer oedolion ifanc 18-25 oed. Mae'r grwpiau hyn ar gyfer unrhyw un sydd eisiau dysgu mwy am y dirwedd anhygoel sydd ar garreg eu drws, ymgymryd â thasgau cadwraeth ymarferol, cynnal arolygon bywyd gwyllt a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored llawn hwyl.

## Tŷ a Gerddi Hanesyddol Plas Newydd

Mae gan y trigolion lleol feddwl mawr o Blas Newydd ac mae gwirfoddoli yn y gerddi yn gyfle gwych i fod yn rhan o'i hanes hir. Gallwch ddysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd, cadw'n brysur ac ymgysylltu â natur mewn lleoliad unigryw. Gallwn hefyd ddarparu ar gyfer profiad gwaith, Gwobr Dug Caeredin, neu weithgareddau adeiladu tîm

## Arweinydd Teithiau Cerdded Gwirfoddol

Os nad yw tasgau ymarferol yn addas i chi, beth am ymuno ag un o'r grwpiau cerdded neu gerdded Nordig; darganfod llwybrau newydd i archwilio a chwrdd â phobl newydd? Neu gallech hyd yn oed ddechrau eich grŵp cerdded eich hun a hyfforddi i fod yn arweinydd cerdded gwirfoddol gyda ni.

## Ceidwad Gwirfoddol

Yn y rôl wirfoddol hon, gallwch ddod yn llysgennad dros y Dirwedd Genedlaethol, rhannu eich cariad a'ch gwybodaeth am yr ardal, ysbrydoli pobl leol ac ymwelwyr a helpu i ofalu am y lle arbennig hwn. Bydd Ceidwaid Gwirfoddol yn cael gwisg swyddogol a gallant ddisgwyl cael eu lleoli i ddechrau mewn ardaloedd prysurach y Dirwedd Genedlaethol megis Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau neu Raeadr y Bedol  Os ydych yn 18 oed neu'n hŷn, yn gallu teithio ac â diddordeb mewn ymuno â ni, cysylltwch â ni.

## Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Mae yna ystod o gyfleoedd i chi gymryd rhan yng ngwaith Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Dinbych ac mae arnom angen eich help! O'r Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd ar hyd Fryniau Clwyd i Hiraethog a Dyffryn Dyfrdwy yn y de gallwch ymunon achlysurol neu bob wythnos chi piau'r dewis.

## Prosiect Natur er Budd Iechyd

Mae Natur er Budd Iechyd yn brosiect cydweithredol sy'n ymgysylltu unigolion a chymunedau i hyrwyddo sut all mynediad at natur wella iechyd a lles. Mae'n galluogi cyfranogwyr i gynyddu faint o amser y maent yn ei dreulio yn yr awyr agored, cwrdd â phobl, gwella iechyd a ffitrwydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth ar gyfer pob gallu. I gael gwybod mwy cysylltwch â natureforhealth@denbighshire.gov.uk

## Prosiect Cysylltu Gylfinir Cymru

Y gylfinir yw un o adar mwyaf prin Cymru. Gall aelodau'r gymuned leol gysylltu â'n Swyddog y Gylfinir a Phobl i gael gwybodaeth am sut gall gwirfoddolwyr helpu i hyrwyddo un o'n hadar mwyaf eiconig.

## Beth allwch chi ei wneud fel Ymwelydd â'r Dirwedd Genedlaethol

- Adrodd am fywyd gwyllt a welwch trwy wasanaeth Cofnod https://www.cofnod.org.uk/Recording
- Mynd â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadw eich ci ar dennyn
- Cau giatiau bob amser

*Rydw i wir yn mwynhau dysgu am y Gylfinir a monitro rhywogaethau lleol o ystlumod ac adar*



# Sefydliadau Partner

## Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Sefydlwyd yr elusen, Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn 2015 gyda chefnogaeth y Tîm Tirwedd Genedlaethol i helpu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i ddarganfod a mwynhau nodweddion arbennig y Dirwedd Genedlaethol.

Bellach mae ganddynt dros 200 o aelodau ac maent yn cefnogi'r tîm gyda digwyddiadau a phrosiectau tra hefyd yn cynnig eu rhaglen ddigwyddiadau eu hunain a chyhoeddi cylchlythyr rheolaidd.

Gallwch ganfod mwy yma: https://friends.cymru/cy/hafan/

## Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

Mae Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn gofalu am ein cefn gwlad ac am i bobl fwynhau a darganfod ei harddwch a'i fanteision, ac mae ei aelodau lleol yn gweithio'n galed i wneud i hyn ddigwydd. Mae Cangen Clwyd yn cynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae Clwyd yn gyfoethog o ran treftadaeth, tirweddau golygfaol, bryngaerau hynafol, bryniau grug a threfi a phentrefi hanesyddol.

Gallwch ddysgu mwy yma: https://cprw.org.uk/about-us/

## Cymdeithas Archeolegol Corwen a Dyffryn Dyfrdwy

Mae Cymdeithas Archeolegol Corwen a Dyffryn Dyfrdwy'n anelu at hyrwyddo a maethu diddordeb mewn astudio archeoleg yng Nghorwen a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae'r Gymdeithas yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer ei haelodau ac yn gwahodd y cyhoedd. info@cadvas.uk

## Grŵp Archeoleg Bryniau Clwyd (CRAG)

Mae Grŵp Archeoleg Bryniau Clwyd yn gymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n cynnwys unigolion sy'n awyddus i ymchwilio i, rhannu a dosbarthu gwybodaeth am hanes Bryniau Clwyd info@cragnorthwales.co.uk



# Sut mae dod yn Wirfoddolwr?

I gael rhagor o wybodaeth am yr holl gyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Dirwedd Genedlaethol



Galwch heibio i'r

**Canolfan Ymwelwyr**
Parc Gwledig Loggerheads
Loggerheads, Ffordd Rhuthun
ger Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych, CH7 5LH



loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

01824 712 757

**Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi!**



@ClwydDeeAONB

@Clwyd_Dee_AONB

**Swyddfa Tirwedd Genedlaethol**
Y Capel, Castle Street, Llangollen, LL20 8NU
Rhif ffôn: 01824 712795
E-bost: ClwydianRangeandDeeValleyNL@denbighshire.gov.uk

**Plas Newydd**
Heol y Bryn, Llangollen, LL20 8AW
Rhif ffôn: 01978 862834
E-bost: ClwydianRangeandDeeValleyNL@denbighshire.gov.uk